



## Cam 2: Tyfu ein cynhwysion

### Amcanion dysgu

- I dyfu perlysiâu o hadau
- I ysgrifennu cerdd ddisgrifiadol

### Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, mae'r plant yn adolygu eu dysgu ar yr hyn sydd ei angen ar blanhigion i dyfu ac yn plannu eu hadau perlysiâu eu hunain i'w defnyddio yn y dyfodol i roi blas ar eu bara. Mae rhoi'r cyfrifoldeb i'r plant am ofalu am eu cnydau eu hunain yn darparu cyfleoedd iddynt brofi heriau ffermwyr a pherchnogion busnes mewn ffordd syml iawn. Er enghraifft, os na fydd y cnydau'n tyfu, ni fydd ganddyn nhw ddigon o gynhwysion i wneud eu cynhyrchion a fydd yn eu gadael heb ddim i'w werthu. Mae cyfle ysgrifennu trawsgwricwlaidd wedi'i gynllunio pan fydd y plant yn defnyddio clipiau fideo i'w hysbrydoli i ysgrifennu barddoniaeth siâp o safbwynt planhigyn sy'n tyfu.

### Defnyddiau sydd eu hangen

- Hadau perlysiâu – mae basil a phersli yn gweithio'n dda
- Compost
- Potiau planhigion

### Nodiadau cyflwyno

Sleid 2-3: Beth sydd ei angen ar blanhigion?	<ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddiwch gwestiynau i adolygu'r amodau y mae angen i blanhigion dyfu o'r sesiwn ddiwethaf.</li><li>• Trafodwch berlysiâu a gofynnwch i'r plant enwi cymaint ag y gallant.</li></ul>
Sleid 4: Fferm foron	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhannwch y fideo Carrot Farm i ddangos yr amodau sydd eu hangen er mwyn i foron dyfu yn y DU.</li></ul>
Sleid 5: Cymhwyso dysgu	<ul style="list-style-type: none"><li>• Modelwch sut i blannu hadau ac eglurwch fod planhigyn newydd ym mhob un yn aros i egino.</li><li>• Trafodwch y lle gorau yn yr ystafell ddosbarth i gadw'r planhigion i'w helpu i dyfu.</li></ul>

<p>Sleid 6: Mathemateg gydag ystyr</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Penderfynwch ar fesuriad safonol o ddŵr y dylent ei roi i'w planhigyn bob dydd.</li> <li>• Modelwch sut i fesur dŵr yn gywir.</li> <li>• Gweithgaredd ymarferol: Plannu hadau.</li> <li>• Gofynnwch i'r plant blannu eu hadau mewn potiau bach wedi'u labelu.</li> <li>• Arweiniwch drafodaeth am y dewis o ddeunydd ar gyfer y pot a pha rai fyddai'n well i'r amgylchedd.</li> <li>• Gan ddefnyddio iPads, fe allech chi ofyn i'r plant dynnu lluniau o'r camau a gymerwyd wrth blannu eu hadau. Yna gallen nhw ddefnyddio ap Shadow Puppet Edu iPad i greu fideo fer gyda'r ffotograffau hyn yn eu trefn ac adrodd esboniad o'r cyfarwyddiadau ar sut i blannu hedyn yn gywir. Gellid defnyddio'r cymhwysiad hwn hefyd ar ddiwedd y cam hwn i recordio eu barddoniaeth ddisgrifiadol fel fideo gyda delweddau.</li> </ul>
<p>Sleid 7: Meithrin ein cydau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arwain trafodaeth am sut y byddwn yn monitro iechyd a thwf ein planhigion a phwysigrwydd ffermwyr, fel perchnogion busnes, yn gwneud hyn.</li> </ul>
<p>Sleid 8: Ysbrydoli barddoniaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Esboniwch ein bod yn mynd i ysgrifennu cerdd ddisgrifiadol yr hoffem ei defnyddio yn ein cynnyrch di-fwyd y byddwn yn ei wneud yng Ngham 8 neu yn ein hymgyrch hysbysebu y byddwn yn ei hysgrifennu yng Ngham 9 y prosiect.</li> <li>• Rhannwch y clipiau fideo treigl amser:  <a href="https://www.youtube.com/watch?v=LICDb8nM5rs">https://www.youtube.com/watch?v=LICDb8nM5rs</a>  <a href="https://www.youtube.com/watch?v=eKo5F87A8a0">https://www.youtube.com/watch?v=eKo5F87A8a0</a>            a gofyn i'r plant nodi unrhyw eiriau neu ymadroddion disgrifiadol sy'n dod i'r meddwl wrth iddynt wyllo.</li> <li>• Anogwch nhw i feddwl am ystod o ferfau i gyfleu'r camau mae'r planhigyn ifanc yn mynd drwyddynt.</li> </ul>
<p>Sleid 9: Pecyn offer barddoniaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafodwch ystyr cyffelybiaethau, trosiad a phersonoli a gofynnwch i'r plant geisio cynnwys rhai enghreifftiau.</li> <li>• Esboniwch nad oes angen i linellau barddoniaeth fod mewn brawddegau llawn ac nad oes raid iddyn nhw odli.</li> <li>• Anogwch nhw i arbrofi gyda gwahanol hyd o linellau barddoniaeth ac i symud trefn eu llinellau o gwmpas i glywed sut maen nhw'n swnio.</li> <li>• Gofynnwch i'r plant ddrafftio eu cerddi. Gallent ysgrifennu yn y person cyntaf neu'r trydydd person.</li> <li>• Dylid rhoi cyfle i blant ddarllen eu cerddi ar goedd a derbyn adborth cymheiriaid gan bartner cyn cwblhau eu drafft terfynol.</li> <li>• Efallai yr hoffech iddyn nhw ysgrifennu eu cerddi ar ffurf blodyn, deilen neu blanhigyn i greu cerdd siâp.</li> <li>• Gofynnwch i'r plant ddysgu a pherfformio eu cerddi i'r dosbarth. Defnyddiwch y cyfle i asesu eu sgiliau iaith lafar.</li> </ul>

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Gwyddoniaeth	Planhigion	<ul style="list-style-type: none"><li>• Archwiliwch ofynion planhigion ar gyfer bywyd a thwrf (aer, golau, dŵr, maetholion o bridd, a lle i dyfu) a sut maen nhw'n amrywio o blanhigyn i blanhigyn</li><li>• Archwiliwch y rhan y mae blodau yn ei chwarae yng nghylch bywyd planhigion blodeuol, gan gynnwys peillio, ffurfio hadau a gwasgaru hadau</li></ul>
Dylunio a Thechnoleg	Coginio a maeth	<ul style="list-style-type: none"><li>• Deall bwydydd tymhorol, a gwybod ble a sut mae amrywiaeth o gynhwysion yn cael eu tyfu, eu magu, eu dal a'u prosesu</li></ul>
Mathemateg	Mesur	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mesur, cymharu, adio a thynnu cyfaint/cynhwysedd (l/ml)</li></ul>
Saesneg neu Cymraeg	Ysgrifennu cyfansoddiad	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cynlluniwch eu hysgrifennu trwy drafod ysgrifennu tebyg i'r hyn y maen nhw'n bwriadu ei ysgrifennu er mwyn deall a dysgu o'i strwythur, geirfa a gramadeg</li><li>• Cyfansoddi ac ymarfer brawddegau ar lafar (gan gynnwys deialog), gan adeiladu geirfa amrywiol a chyfoethog yn raddol ac ystod gynyddol o strwythurau brawddegau</li><li>• Darllen eu hysgrifennu eu hunain yn uchel i grŵp neu'r dosbarth cyfan, gan ddefnyddio goslef briodol a rheoli'r naws a'r cyfaint fel bod yr ystyr yn glir</li></ul>